## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**1.** ALDI Winter Flame Smokeless Fuel, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

(a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 17% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl/asid neu rwymwr organig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o hyd at 300°C;

(c) sydd naill ai'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd neu'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf llinell hydredol sengl ar bob wyneb, 10 milimetr i ffwrdd o'r llinell gyfatebol gyferbyn;

(d) sy'n pwyso 55 neu 80 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.